# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 5 Tachwedd 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### System Gyfrifiadurol Llywodraeth Cymru

**C11 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal ynghylch manteision defnyddio system weithredu ffynhonnell-agored am ddim, ar gyfer holl gyfrifiaduron Llywodraeth Cymru? (OAQ19879)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Trafododd Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn ddiweddar, a hynny ar lefel genedlaethol y DU, y defnydd o feddalwedd ffynhonnell-agored gan lywodraeth. Mae'r cyfarwyddyd a gynhyrchwyd yn ddefnyddiol a cheiff ei ystyried wrth bwyso a mesur y cynigion ar gyfer opsiynau meddalwedd a gyflwynir gan gyflenwyr, fel rhan o broses gaffael Merlin, i gymryd lle contract OSIRIS. Gan ein bod yng nghamau cyntaf y broses gaffael, amhriodol fyddai gwneud sylw pellach ar y mater hwn.

### Profion ar Offer y Sector Amddiffyn

**C12 Glyn Davies:** A yw'r Prif Weinidog wedi cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn trafod problemau gweithwyr sector amddiffyn Meirionnydd a gorllewin Cymru, sy'n cynnal profion ar offer? (OAQ19889)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys goblygiadau ad-drefnu'r safle profi a gwerthuso offer amddiffyn a weithredir gan QinetiQ, ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd y cyfleusterau hyn i gymunedau Llanbedr ac Aberporth, a gwnawn bopeth o fewn ein gallu er mwyn bod o gymorth. Mae swyddogion y Cynulliad, ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru, Aerospace Wales a'r Asiantaeth Arallgyfeirio Amddiffyn, wedi ymweld â safleoedd QinetiQ yn Llanbedr ac Aberporth. Mae gweithwyr y ddau safle yn dra medrus a bwriadwn geisio darganfod cyfleoedd sifil a chyfleoedd milwrol amgen y gallai'r safleoedd cyfan fanteisio arnynt, er mwyn cadw swyddi yn y ddau le.

### Anweithgarwch Economaidd yng Nghymoedd De Cymru

**C13 Huw Lewis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd yng Nghymoedd de Cymru? (OAQ19886)

**Y Prif Weinidog:** Tanlinella 'Cymru'n Ennill' bwysigrwydd rhoi cymorth i bobl ganfod swyddi a, chyda'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth, mae'n cynnig mesurau i ymdrin ag anweithgarwch economaidd yng Nghymoedd de Cymru, ac mewn mannau eraill. Mae'r mesurau'n cynnwys targedu arian Amcan 1, amryw gynlluniau'r Fargen Newydd ac ystod eang o fentrau hybu sgiliau.

Mae data diweddaraf y farchnad lafur yn dangos bod cyfraddau anweithgarwch economaidd a diweithdra yn disgyn ledled Cymru ac y mae'r gwelliant yn ardal Amcan 1 dros y flwyddyn ddiwethaf yn profi y targedwyd ein polisïau yn gywir.

Yn ystod sesiwn ymgynghorol ar 26 Mehefin yn Neuadd Gorfforaeth Abertawe, bu i uned polisi strategol y Cabinet drafod â rhanddeiliaid y ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag gweithio ynghyd â mesurau i gynyddu gweithgarwch economaidd, ac mae gwaith ymchwil pellach wedi ei gomisiynu.

### Heddlu Gogledd Cymru

**C14 Alun Pugh:** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch ariannu Heddlu Gogledd Cymru? (OAQ19882)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cynnal trafodaethau gyda Gweinidogion y Swyddfa Gartref ond mae Edwina Hart wedi ymateb i'r adolygiad diweddar o fformiwla gyllido'r heddlu. Tynnodd sylw yn ei hymateb at gostau ychwanegol plismona ardaloedd gwledig ac ardaloedd o amddifadedd mawr.

### Gwasanaethau Ombwdsmyn

**C15 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr adolygiad o wasanaethau'r ombwdsmyn yng Nghymru? (OAQ19883)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddir papur ymgynghorol, ar y cyd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, cyn diwedd Tachwedd.